

# Dylai fod gan bawb yr hawl i gael gofal lliniarol

---

Blaenoriaethau Maniffesto

2016–2021



---

Gofal a chefnogaeth  
drwy salwch terfynol

# Wrth edrych ymlaen at yr etholiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mai 2016, byddai Marie Curie yn hoffi gweld pleidiau gwleidyddol ac ymgeiswyr yn ymrwymo i'r blaenoriaethau allweddol canlynol yn eu maniffestos er mwyn helpu i wella bywydau'r bobl sy'n byw gyda salwch terfynol a'u teuluoedd a gofalwyr.

## Rydym am i'r Llywodraeth Cymru nesaf:

1. ymrwymo i sicrhau y bydd pawb sydd ag angen gofal lliniarol yn gallu ei dderbyn erbyn diwedd y tymor Cynulliad nesaf
2. defnyddio dull wedi'i seilio ar iechyd y cyhoedd a chymunedau tosturiol i ddatblygu gwasanaethau newydd i bobl sy'n byw gyda salwch terfynol
3. ymrwymo i gynnal arolwg chwemisol o bobl a gafodd brofedigaeth i gael darlun cliriach o ofal diwedd oes yng Nghymru

## Y cefndir

Mae Marie Curie yn credu y dylai pawb gael yr hawl i dderbyn y gofal lliniarol sydd ei angen arnynt. Er hynny, hyd yn oed ar ôl darparu'r holl ofal a chymorth sydd ar gael gan y GIG a'i bartneriaid, mae ein hymchwil yn dangos bod 6,200 o bobl ledled Cymru sydd ag angen gofal lliniarol bob blwyddyn yn methu â'i gael am nad yw eu hanghenion wedi'u hadnabod ac am nad ydynt wedi'u cyfeirio at y gwasanaethau priodol.

Rydyn ni'n gwybod bod pobl yn wynebu nifer o rwystrau wrth geisio cael gafael ar y gofal sydd ei angen arnynt, gan gynnwys rhwystrau sy'n ymwneud â'r math o salwch sydd ganddynt, a diffyg ymwbyddiaeth o beth yw gofal lliniarol a pha wasanaethau sydd ar gael.

Gan fod y boblogaeth yn heneiddio, bydd nifer cynyddol o bobl ag angen derbyn gofal lliniarol yn y blynyddoedd i ddod. Rydyn ni'n annog Llywodraeth Cymru i adeiladu ar y gwaith da sydd wedi'i wneud eisoes i sicrhau y bydd y nifer cynyddol o bobl a fyddai'n cael budd o ofal lliniarol yn gallu ei dderbyn.

### 1. Dylai pawb gael hawl i dderbyn gofal lliniarol os oes ei angen arnynt

Mae gormod o achosion o hyd lle mae pobl sy'n dod i ddiwedd eu hoes heb gael y gofal lliniarol sydd ei angen arnynt.

Mae saith o bob 10 o ofalwyr yn dweud nad yw pobl sydd â salwch terfynol yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.\*

Mae pobl sydd â salwch terfynol heblaw canser, fel dementia, methiant y galon neu glefyd rhwystr cronig yr ysgyfaint, yn llawer llai tebygol o gael gofal priodol. Mae hyn yn wir hefyd am bobl sydd dros 85 oed, pobl o gefndiroedd tlawd neu wledig, ac aelodau o gymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig a chymunedau Pobl Lesbiaidd, Hoyw, Deurywiol a Thrawsrywiol. Mae'n amlwg bod rhaid gwella ar hyn.

Hoffem weld y Llywodraeth Cymru nesaf yn ymrwymo i sicrhau bod pawb sydd ag angen gofal lliniarol yn gallu ei gael erbyn diwedd y tymor Cynulliad nesaf yn 2021.

## 2. Dull o drafod gofal diwedd oes wedi'i seilio ar iechyd y cyhoedd a chymunedau tosturiol

Hoffen ni weld y Llywodraeth Cymru nesaf yn arwain ymgyrch sy'n cydnabod bod gofal a chymorth i bobl sy'n marw yn fater sy'n ymwneud ag iechyd y cyhoedd sy'n effeithio ar bob un ohonon ni ac sydd â goblygiadau eang i gymunedau.

Mae'r rhan fwyaf ohonon ni am farw gartref gyda'n hanwyliaid a'r pethau sy'n gyfarwydd i ni. Er mwyn gwneud hyn, bydd angen llawer o gymorth yn y gymuned. Dylai rhywfaint o'r cymorth hwn gael ei ddarparu gan wasanaethau cymdeithasol, a rhywfaint gan y GIG. Ond a ydyn ni am broffesiynoli pob agwedd ar ofal diwedd oes yn y gymuned?

Dewis arall yw darparu adnoddau i gynorthwyo pobl sydd am helpu ffrindiau a chymdogion sy'n dod i ddiwedd eu hoes. Mae llawer i'w wneud o hyd i gynorthwyo'r rhai sy'n gofalu am bobl ar ddiwedd eu hoes.

Ni wneir digon ychwaith i ddarparu cymorth mewn profedigaeth i bobl sydd wedi colli anwyliaid. Gall hyn arwain at salwch meddwl, afiechyd corfforol yn ogystal ag anawsterau â chyflogaeth a'r gallu i aros yn annibynnol.

Bydd dull gweithredu o'r math hwn yn helpu cymunedau i ddeall marw a marwolaeth a'u trafod mewn ffordd dosturiol.

## 3. Arolwg o bobl a gafodd brofedigaeth

Rydyn ni am weld cyflwyno arolwg chwemisol o bobl a gafodd brofedigaeth yng Nghymru, er mwyn i weithwyr gofal iechyd proffesiynol a llywodraeth gael gwell dealltwriaeth o brofiadau pobl ar ddiwedd eu hoes a'u gofalwyr.

Dylai'r arolwg hwn fod ar ffurf sy'n caniatáu i ni ddeall profiadau pobl sydd â gwahanol nodweddion a chefnidiroedd.

Dylid ystyried y wybodaeth a geir o'r arolygon hyn wrth lunio polisiau, strategaethau a chynlluniau cyflawni ar gyfer gofal diwedd oes yn y dyfodol.

---

\* Ar ran Marie Curie, roedd Ipsos MORI wedi cyf-weld sampl cwota ar-lein o 1,067 o oedolion 16-75 oed a oedd wedi gofalu am aelod o'r teulu, ffrind neu gymydog a oedd neu sydd â salwch terfynol yn y 3 blynedd diwethaf. Cafodd y sampl hon ei sgrinio o sampl gynrychiadol genedlaethol ar-lein o 6,136 o oedolion 16-75 oed yn y DU. Cynhaliwyd y cyfweiliadau ledled y DU gan ddefnyddio i: omnibus, omnibws ar-lein Ipsos MORI rhwng 3 a 29 Hydref 2014. Mae'r data wedi'u pwysoli yn ôl oed, rhywedd, rhanbarth, statws gweithio a gradd gymdeithasol i gyfateb i broffil y gynulleidfa a dargedwyd.

# Contact

## Simon Jones

Cyfarwyddwr, Polisi a Materion Cyhoeddus

Marie Curie

Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro

Heol Bridgeman

Penarth

Bro Morgannwg

CF64 3YR

029 2042 6038

simon.jones@mariecurie.org.uk

## Paul Harding

Rheolwr Polisi a Materion Cyhoeddus

Marie Curie

Hosbis Marie Curie, Caerdydd a'r Fro

Heol Bridgeman

Penarth

Bro Morgannwg

CF64 3YR

029 2042 6057

paul.harding@mariecurie.org.uk

Rydym yma i bobl sy'n byw gydag unrhyw salwch terfynol, a'u teuluoedd. Cynigwn ofal, arweiniad a chefnogaeth arbenigol er mwyn eu helpu i wneud yn fawr o'r amser sydd ganddynt ar ôl.

[mariecurie.org.uk/change](https://mariecurie.org.uk/change)

 MarieCurieWales

 @MarieCurieCymru



---

**Gofal a chefnogaeth  
drwy salwch terfynol**